



Anerchiad y Llywydd Ebrill 2021

Wrth i ni gydgyfarfod ar ddiwedd ein Cynhadledd Esgobaethol, a hynny ynghanol yr ansicrwydd sydd o'n blaenau, mae yna rai pethau y gallwn fod yn sicr ohonynt. Pobl Duw ydym o hyd, pobl wedi ein galw i gyflawni, orau y gallwn, her ein Harglwydd i fynd a gwneud disgyblion yma yn awr, ac i ateb ei alwad i rannu ein ffydd ynddo a byw gan fod yn ddisgyblion Iddo, yn halen a goleuni yn ein teuluoedd, ein pentrefi, ein cymunedau, ein trefi, ein cenedl, ein cymdeithas a'n byd.

Cwbl briodol, yn ein Cynhadledd, yw ymdrin ag elfennau ymarferol ein bywyd ynghyd, fel Esgobaeth Tyddewi, a'r hyn sy'n peri iddo ddigwydd; ac wrth agor ein Cynhadledd, fe ddiolchais i bawb ohonoch a'i gwnaeth yn bosib i barhau'r bywyd hwnnw yn ystod y cyfnod tra heriol hwn. Rhaid wrth seiliau ymarferol cedyrn – trefn ar bopeth a hwylustod ariannol sicr – os am genhadu, gweinidogaethu a gwasanaethu effeithiol fel pobl ynghyd.

Pan roddais Siars i chwi, adeg fy Ngofwy yn Ionawr eleni, gofynnais i bob AWL nodi tair blaenoriaeth i fod yn ganolbwynt i'w gwaith am y tair blynedd i ddod. Nid diben y blaenoriaethau hyn yw bod yn llyffethair i'ch caethiwo, ond yn symbyliad, yn ysgogiad ac yn ffynhonnell gobaith; byddant yn hwb i chi wrth i chi fentro ar gamau nesaf eich taith fel disgyblion, gan genhadu a gwasanaethu yn ein cymunedau, y cymunedau y bu i Dduw ein galw i fyw a rhannu Efengyl ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist ynddynt; a phan ymwelaf â phob AWL ym mlwyddyn Bererindod 2023, caf glywed hanes eich taith o'r man cychwyn.

Wrth i mi ddarllen eich ymatebion, fe'm syfrdanwyd o ganfod ehangder eich gweledigaeth, eich ymroddiad ar adeg anrhaethol anodd, eich gobaith – y cyfan, yn amlwg yn deillio o'ch cariad at Dduw, - eich ffydd yn ein Harglwydd, a'ch parodrwydd i fod yn sianeli gras Duw drwy rym yr Ysbryd Glân yn eich eneidiau. Roedd ymateb pob AWL yn neilltuol ac unigryw, gan adlewyrchu ystyriaeth fanwl o'ch sefyllfa a'r doethineb a roddwyd i chi.

Yn union fel ag yr awn i'r afael â'r materion ymarferol yn y Gynhadledd hon, roedd hi'n gwbl briodol i sawl AWL nodi pwysigrwydd datblygu strwythurau da o ran rheoli a thrin cyllid, er mwyn sicrhau sail gadarn ar gyfer eu cenhadaeth a'u gweinidogaeth.

Mynegodd un AWL ei gwerthfawrogiad i'r Parch Jeff Thomas a'r hyn a gynigiwyd gan Swyddfa'r Esgobaeth, o ran y pecyn ariannol – rhywbeth a fu o gymorth ymarferol sicr. Defnyddiodd AWL arall yr acronym SMART fel modd cynllunio tair amcan ei gwaith o ran rheoli, cenhadu a gweinidogaethu, hynny er mwyn gosod targedau sy'n benodedig, yn fesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amsereddol.

Yn ôl un arall, byddent yn cynnal arolwg 360 o ddarpariaeth y gwasanaethau eglwysig, ynghyd â'r anghenion bugeiliol ledled yr AWL, wrth iddynt ymryddhau o hualau Covid. Nodwyd yr angen gan AWL arall i sicrhau perthynas deilwng rhwng eu Cyngor AWL a'r Cynghorau Eglwys, tra bod eraill yn gweld galw am sicrhau fod yna swyddogion digonol; gwelai eraill eto y dylai fod yna Gyngor AWL ymarferol ar waith, a bod y Tîm Gweinidogaethu yn cyfarfod yn gyson, a

threfnu'n briodol sut i ddatblygu gweledigaeth gogyfer â gweithio'n effeithiol ledled AWL oedd yn ddaeryddol eang.

Soniodd un AWL am dri blas (fy ngair i yw hwnnw) fyddai'n nodweddu pob ymgyrch gymunedol. Yn gyntaf, byddai pob bwriad ar ei hyd, o ran cenhadu ac ymgyrchu, wedi ei wreiddio mewn gweddi. Yn ail, lletygarwch a chroeso fyddai hanfod eu hymgyrchu, felly lleol a phenodedig y gweithredu – dim angen 'L' fawr o ran yr 'AWL', ond pwyslais ar gymunedau lleol, perthnasol a phenodedig, a chanlyn yr hyn oedd eisoes ar waith, heb arwain na gorfodi, ond bod yno ynghanol amrywiaeth cymdeithas, y drwg a'r da.

Roedd gweddi'n thema amlwg i sawl AWL: fel y nodwyd gan un ohonynt rhaid i hyn fod wrth galon popeth o'n heiddo. Mae sawl AWL yn gobeithio annog pobl – rhai oddi fewn i'r Eglwys ac eraill heb eu cyffwrdd eto – i ddysgu gweddïo neu i ddwysáu eu bywyd gweddi. Mae un AWL yn bwriadu dwysáu ei bywyd gweddi gan agor ei bywyd eglwysig i rym Ysbryd Glân Duw. Mae rhai AddGLI wrthi'n cynllunio cyrsiau gweddi a defnyddio adnoddau sydd ar gael eisoes e.e. gweddi 24/7, neu i ddefnyddio tymhorau traddodiadol y flwyddyn Eglwysig: Adfent, Garawys, Deued Dy Deyrnas, a rhai newydd megis Cyfnod y Greadigaeth. Mae eraill yn cynllunio grwpiau myfyrdod, grwpiau gweddi tawel, teithiau gweddi ar draed, grwpiau gweddi sgysio a cherdded, a Phererindodau, gan sicrhau fod yr adnoddau gweddi a gyflwynir yn oed-gymwys, ar gyfer pobl iau a hŷn.

Bu'r posibiliadau o barhau i ddefnyddio'r dechnoleg newydd gogyfer â gweddi a gwasanaethau, yn achos cyffro i lawer un. Mae rhai AddGLI yn eiddgar i wybod mwy am y broses ddysgu. Nid ffiniau daeryddol yn unig sy'n cyfri bellach, o ran ambell AWL; nid mater o ddwyn cynulleidfaoedd eu cymydog mohono chwaith – yn hytrach, denu pobl, yn llythrennol o bellafoedd byd, ac nid cyfeirio at y Gadeirlan yn unig yw hynny!

Mae AddGLI wedi sylweddoli potensial yr oes ddigidol newydd ac y mae rhai, sydd â manau agored yn llythrennol, mynwentydd ac ambell ofod arall, yn ystyried sut y gellir defnyddio'r rhain hefyd fel manau tawel ar gyfer myfyrdod a defosiwn.

Soniodd amryw AddGLI am yr angen i weithredu ym maes Newid Hinsawdd, gydag ambell un yn cyplysu hyn gyda helpu adeiladau eglwysig yr AWL i ennill gwobrau eco, gydag un yn cynllunio i ddatblygu rhandir lysiau cymunedol. Mae'n obaith gan un arall i greu dolenni cyswllt â gwenynwyr lleol er mwyn dysgu gwneud y mynwentydd yn wenyn-gyfeillgar. Bydd hyn yn fanteisiol o ran ennill gwobrau eco i'r Eglwys, a dwysáu cysylltiadau cymunedol.

Dyma ddod at thema fawr arall, wrth sôn am ddwysáu cysylltiadau cymunedol. Mae yna bob math o weithgareddau ar droed, yn y cyswllt hwn. O ran AddGLI yng nghefngwlad, soniwyd am Deithiau Tractor neu ddigwyddiadau yng nghyd-destun gwyliau Cristionogol, megis Dydd Gwener y Groglith, Sul yr Aradr neu Ddramau'r Geni. Mae un AWL yn bwriadu sefydlu presenoldeb Cristionogol mewn arwerthiant cist car yn lleol, un arall yn ystyried y posibilrwydd o gychwyn siop leol, marchnad a chaffi o fewn rhai o'r cymunedau pentrefol, tra bod AWL arall yn mynd i geisio cartref parhaol ar gyfer y ganolfan-alw-heibio sydd acw eisoes.

Mae yna gynlluniau mewn man arall i ddatblygu llwybr ffydd, gan gymryd mantais o'r posibiladau cenhadu mewn perthynas â threftadaeth Gristionogol wych yr adeiladau eglwysig hanesyddol a'r cymunedau lleol a ddatblygodd o'u hamgylch yn ystod y canrifoedd. A beth am ambell syniad dychmygus er cysylltu â'r gymuned leol, megis cychwyn côr yn yr AWL i ganu'r Meseia ar hap, a ffurfio grŵp drama i annog pobl o bob oed i ymuno! Bwriadau AWL arall ail-sefydlu clybiau cinio, a dirnad dulliau newydd o gynnig gwasanaeth i deuluoedd lleol.

Roedd cyfathrebu hefyd yn thema, gan ddefnyddio cyfryngau newydd y dechnoleg gyfoes, ond gan gychwyn papur eglwysig printiedig ar yr un pryd, tra bod eraill yn gobeithio defnyddio papurau a gwefannau lleol, ynghyd â'r cyfryngau cymdeithasol lleol oedd yn bodoli eisoes.

Roedd anghenion pobl ifainc ein Hesgobaeth yn amlwg yn ymateb amryw AddGLL, a dymunai rhai weld penodi Gweithiwr Ieuenctid arbenigol, tra bod gan un AWL y cyfryw swyddog ar waith yn barod. Gobaith un AWL yw creu partneriaeth â'r Undeb Ysgrythurol. Llan Llanast sydd ym meddwl ambell AWL arall, neu wasanaethau teuluol/ieuenctid yn benodedig. Mae cydweithio ag ysgolion yn ffordd ymlaen i rai AddGLL, neu sefydlu clybiau diwetydd, dolennu â cholegau, cynnal dyddiau hwyl, picnic awyr agored, grwpiau a chorau ieuenctid – pob un yn arwyddo gobaith at y dyfodol. Awgrymwyd sefydlu band ieuenctid ar gyfer addoliad, gan un AWL. Yn union fel y mae eglwysi wyneb yn wyneb yn cynnig gwaith gyda phlant, soniodd un o'r cymunedau eglwysig newydd arlinell am barhau i gynnwys, o fewn eu presenoldeb arlinell, grŵp plant ac ieuenctid.

Mae un AWL yn dymuno dwysáu'r cyswllt â'r prosiect Plant Dewi oedd ar droed cyn y Cyfnod Clo.

Nid esgeuluswyd Cenhadu Byd-eang chwaith. Bu i un AWL greu cysylltiad â pherson yn ymwneud â gwaith cefnogi dramor, drwy eu gwasanaeth arlinell, a gobeithiant barhau i fedru cynnig y gefnogaeth hon ym mha fodd bynnag, yn y dyfodol. Soniodd eraill am gefnogi asiantaethau megis Tearfund.

Mae gofal bugeiliol yn bwysig bob amser, ond nodwyd gan sawl un ohonoch fod ymarfer hynny dan yr amodau cyfredol yn arbennig felly. Tanlinellwyd anghenion yr ieuenctid, a'r henoed, hefyd y rheiny fydd yn ei chael yn anodd dychwelyd i'r eglwys pan fydd modd. Nodwyd datblygu Caplaniaeth Anna, fel prosiect, gan ddwy AWL.

Roedd cenhadu Efengylaidd yn bwnc amlwg gan nifer o'r AddGLL. Mae cynlluniau ar y gweill mewn un AWL i barhau â gwasanaeth Zoom 'Eglwys heb furiau' a gychwynwyd yn ystod y pandemig, tra bod AWL arall yn plannu dwy gynulleidfa newydd, y naill yn ymarferol ac eciwmenaidd, a'r llall arlinell. Mae yna un AWL sy'n bwriadu datblygu darpariaeth fugeiliol addas ar gyfer eglwyswyr, ac ar yr un pryd yn annog yr union gymunedau Cristionogol hynny i flaenoriaethu eu gwaith cenhadol i'r ardaloedd lleol y'u gelwir i'w gwasanaethu. Mae ambell AWL a welodd botensial eu presenoldeb arlinell yn ystod y pandemig, yn eiddgar i archwilio posibiladau cenhadu'r eglwys arlinell honno at y dyfodol.

Soniodd un AWL am ail sefydlu'r berthynas gyda'r gymdeithas eglwysig a chyda grwpiau eglwysig a fyddai'n cyfarfod cyn y pandemig, ond hefyd am adnewyddu eu cynlluniau cenhadu

ac ymgysylltu gyda Gweithgor yr AWL parthed y Ffordd Ymlaen. Mae AWL arall yn annog pob ardal fugeiliol i ddatblygu eu strategaethau cenhadu a gweinidogaethu eu hunain, ond mae'r ardaloedd bugeiliol gyda'i gilydd yn cynllunio Ymgyrch Genhadu Gydenwadol ar gyfer y Pasg nesaf. Mae AWL arall eto yn bwriadu cynnal cenhadaeth gyda thîm y Bedwaredd Archddiaconiaeth er mwyn cysylltu â'r rheiny ar y cyrion, tra'n cynnig profiad o rannu'u ffydd, i bobl yr eglwys. Mae cynlluniau ar waith gogyfer â threfnu gweithgareddau cenhadu profedig, megis grwpiau Alpha, mewn sawl AWL. Gwelais fod un AWL yn gobeithio archwilio potensial Partneriaeth y CMS ar gyfer Eglwys Genhadus, fel modd estyn ei dylanwad tua'r gymuned, tra bod AWL arall yn bwriadu archwilio syniad Mike Breen o "Adeiladu Eglwys Ddisgyblaethu".

Rhannodd AddGLI eu blaenoriaethau â mi a gwerthfawrogaf hyn yn fawr iawn – diolch.

Yn eu tro, yn y Gynhadledd hon, gofynnwyd i aelodau drafod yr hyn, yn eu tŷb hwy, y dylai'r Esgobaeth ystyried yn dair blaenoriaeth ar gyfer blynyddoedd i ddod. Cydlynir eich ymatebion, a'u trafod gan y Pwyllgor Sefydlog, a chewch grynoded yn y man ar gyfer trafodaeth adeg Cynhadledd fis Hydref eleni. Ymhellach, gan i ni drafod cynigiad heddiw, sy'n caniatáu i Gyngorau AWL ddwyn cynigion gerbron y Gynhadledd hon, bydd modd i lais y bobl, o bob rhan o'r Esgobaeth, gyfrannu at benderfyniadau'r Gynhadledd wrth i ni fel Esgobaeth sefydlu ein blaenoriaethau. Manteisiwch ar y cyfle hwn, ar bob cyfrif.

Wrth agor y Gynhadledd hon, diolchais i bawb ohonoch am eich ymroddiad, am sicrhau fod bywyd yr Esgobaeth yn mynd yn ei flaen, a hithau'n gyfnod anodd. Un o'r pethau newydd a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod fu'r ffordd wahanol o ddysgu sicrhau ein blaenoriaethau. Gwelwyd Pwyllgor Cyllideb y Bwrdd Cyllid Esgobaethol, dan gadeiryddiaeth Mr Tim Llewellyn, yn datblygu dull newydd ardderchog o lunio'r Gyllideb Esgobaethol. Bellach, cydlynir elfennau'r Gyllideb ar ôl ymgynghori â'r swyddogion amrywiol ynglŷn â'r blaenoriaethau, o ran gwariant tebygol. Eisoes paratowyd Cyllideb y flwyddyn hon, ond gyda bod y Pwyllgor Sefydlog yn ystyried blaenoriaethau'r Gynhadledd hon yn ei gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn sydd ohoni, bydd modd i'ch blaenoriaethau chi, wrth i'r Pwyllgor Sefydlog gysylltu â'r BCE, gyfrannu at ffurfiant Cyllideb 2023. Gellir trafod hyn ymhellach yn ein Cynhadledd yn ddiweddarach eleni. Fy ngobaith yw gweld gweddïau, gobeithion a gweledigaethau'r Gynhadledd hon a'i Phwyllgor Sefydlog – yn seiliedig, fel y mae, ar waith ein Bwrdd Cyllid Esgobaethol – yn dod fwyfwy yn ganolbwynt ein bywyd ynghyd, wrth i ni ymroi i wasanaethu ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist yma yn Esgobaeth Tyddewi.

Mae yna un ymateb na soniais amdano tan y diwedd: dymuna un AWL ganolbwyntio ar lesiant. Gadawodd y flwyddyn ddiwethaf hon ei hôl arnom bawb; a diau y gwelwyd pawb ohonom yn newid o'r herwydd. Mae'n hysbys i ni eisoes, i raddau, y modd yr effeithiwyd ni; yn ara deg y sylweddolwn y newidiadau eraill ynom, pan ddaw bywyd yn ôl i'w le. Dydw i ddim yn crybwyll yr ymadrodd 'adfer y normal' gan nad felly y bydd hi. Bydd yna rai a fu farw ac a fydd felly yn absennol pan ddaw amser cydgyfarfod unwaith eto. Gwelwn eu heisiau a rhaid fydd ail-gysylltu dolenni ein bywydau, a bydd angen i ni fod yn garedig y naill at y llall.

Bydd angen i ni, y naill am y llall, ofalu am les ein gilydd. Nid cyfrifoldeb y clerigaid yn unig fydd gofalu am les y lleygwyr, na chwaith i'r gwrthwyneb – y lleygwyr am y clerigaid. Yn hytrach, ochr yn ochr â'n gilydd – Esgob, clerigaid, lleygwyr – rydym bawb yn hllith y

'Ffyddloniaid', sef yr enw hynafol, hynod, am yr Eglwys gyfan; ac wrth i ni symud ymlaen, yn araf o bosib, drwy'r profiad hwn, tua'r hyn sydd i ddod, bydd angen i bawb ohonom, y Ffyddloniaid, ymorol am les ein gilydd.

Yr hyn sy'n destun sicrwydd i ni y tymor Pasg hwn, a'r Dyrchafael a'r Pentecost i ddod, yw presenoldeb yr Iesu Atgyfodedig, Dyrchafedig, i'n cynnal ymhob un o stormydd bywyd, gan ein harfogi bob dydd o'r newydd drwy ei Ysbryd Glân. Yn y flwyddyn weddi hon, boed i bawb ohonoch ddwysáu eich pererindod gyda Duw, yn Dad, Mab ac Ysbryd Glân, er mwyn bod yn barod, pan ddêl yr Adfent – a minnau gyda chi – i'n hail-gyflwyno'n hunain yng ngwasanaeth Iesu, yn unol â'i her i ni i fod yn ddisgyblion cadarn ac i herio eraill i'w ddilyn Ef.

Diolch i chi am rannu gyda mi eich gobeithion a'ch cynlluniau. Yn 2023, nid dod i fwrw golwg ar eich gwaith fydda i, ond dod i glywed hanes eich taith, a llawenhau, yn eich cwmni, fod Duw wedi eich bendithio wrth i chi agor eich calonnau iddo Ef ac i bawb yn eich cymunedau, yn ei enw Ef, yn y blynyddoedd hyn o weddi a gwasanaeth.

Bydded i Dduw Tangnefedd, yr hwn a ddug yn ôl oddiwrth y meirw ein Harglwydd Iesu, Bugail mawr y Defaid, trwy waed y cyfamod tragwyddol, eich cyflawni â phob daioni er mwyn i chi wneud ei ewyllys Ef; a bydded iddo lunio ynoch yr hyn sydd gymeradwy ganddo trwy Iesu Grist, i'r hwn y byddo'r gogoniant yn oes oesoedd; a bendith Duw Hollalluog, y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân a fyddo arnoch gan aros gyda chi am byth. Amen.

+Joanna Tyddewi